

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Bu'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Diogelwch Ar-lein yn eu cyfarfod ar 8 Mehefin 2022.

1. Cyflwyniad

1. Gosododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd **Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol** ("y Memorandwm") ar 30 Mawrth 2022 o dan Reol Sefydlog 29.2.

2. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm at y Pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i'w ystyried, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 21 Gorffennaf 2022.

2. Ein dull ni

3. Trafododd y Pwyllgor Cyllid y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2022. O ystyried natur y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer, ni cheisiodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol.



3. Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

4. Cyflwynwyd Bil Diogelwch Ar-lein Llywodraeth y DU ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 17 Mawrth 2022, ac fe'i noddir gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

5. Mae teitl hir y Bil – fel y'i cyflwynwyd – yn nodi fod diben y Bil fel a ganlyn:

"Make provision for and in connection with the regulation by OFCOM of certain internet services; for and in connection with communications offences; and for connected purposes."

6. Yn gryno, mae'r Bil yn cyflwyno trefn reoleiddio newydd mewn perthynas â'r canlynol:

- darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd sy'n caniatáu i ddefnyddwyr ddod ar draws cynnwys a gynhyrchir, a lanlwythir neu a rennir gan ddefnyddwyr eraill, h.y. cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr ("gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr");
- darparwyr chwilotwyr sy'n galluogi defnyddwyr i chwilio gwefannau a chronfeydd data lluosog ("gwasanaethau chwilio"); a
- darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd y mae cynnwys pornograffig yn cael ei gyhoeddi neu ei arddangos arnynt.

7. O dan y drefn reoleiddio honno, rhaid i rai darparwyr gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr a gwasanaethau chwilio sydd â chysylltiadau â'r DU asesu'r risg o niwed a chymryd camau i liniaru a rheoli risgiau, gan gynnwys rhoi ar waith systemau, prosesau a gweithdrefn gwyno dryloyw a hawdd ei defnyddio.

4. Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

8. Nodir y darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yng nghymal 175(5) o'r Bil ac ym mharagraff 1 a Rhan 2 o'r Atodlen iddo. Mae'r darpariaethau hynny wedi'u crynhoi isod.

- Cymal 175(5) (Pwerau i ddiwygio Rhan 2 o Atodlen 1)
- Paragraff 10 a Rhan 2 o Atodlen 1 (Gwasanaethau a ddarperir gan bersonau sy'n darparu addysg neu ofal plant)

9. Ymhlith pethau eraill, mae'r Bil yn gosod rhwymedigaethau ar ddarparwyr gwasanaethau defnyddwyr-i-ddefnyddwyr rheoleiddiedig a gwasanaethau chwilio rheoleiddiedig. Nid yw gwasanaeth defnyddwyr-i-ddefnyddwyr, na gwasanaeth chwilio, yn cael ei reoleiddio os yw wedi'i esemptio. Nodir yr esemptiadau yn Atodlen 1 i'r Bil.

10. Nid oes angen i wasanaeth defnyddwyr-i-ddefnyddwyr na gwasanaeth chwilio sydd wedi'i esemptio gydymffurfio â'r rhwymedigaethau o dan y Bil.

11. Mae paragraff 10 o Atodlen 1 i'r Bil yn rhoi disgrifiad o'r esemptiad sy'n gymwys mewn perthynas ag addysg a gofal plant. Bydd gwasanaeth wedi'i esemptio os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu at ddibenion addysg neu ofal plant ac mai darparwr y gwasanaeth yw:

- y person¹ â chyfrifoldeb cyfreithiol am addysg neu ofal plant o ddisgrifiad a restrir yn Rhan 2; neu
- person sy'n cael ei gyflogi neu ei gymryd ymlaen i ddarparu addysg neu ofal plant o ddisgrifiad a restrir yn Rhan 2, ac sy'n ddarostyngedig i ddyletswyddau diogelu² sy'n ymwneud â darparu'r addysg neu'r gofal plant hwnnw.

12. At y dibenion hyn, y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am addysg neu ofal plant o ddisgrifiad penodol yw'r person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am ddarparu'r addysg neu'r gofal plant o ddydd i ddydd (er enghraifft, y person sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol am ysgol benodol). Nid yw hyn yn cynnwys person sydd â dyletswydd gyffredinol i sicrhau bod addysg neu ofal plant o'r disgrifiad hwnnw yn cael eu darparu.

13. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys rhestr o'r disgrifiadau o addysg a gofal plant³ sy'n cael eu hesemptio. Mae Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil yn cynnwys rhannau sy'n ymwneud â Chymru (paragraffau 31 i 37).

¹ Os mai corff yw'r person cyfrifol, mae hyn yn cynnwys aelod o'r corff hwnnw.

² Mae "dyletswyddau diogelu" yn golygu dyletswyddau neu ofynion sy'n ymwneud â diogelu plant sy'n codi o dan ddeddfiadau ac eithrio'r Bil, o dan ganllawiau neu ofynion (sut bynnag y cyfeirir atynt) a luniwyd o dan ddeddfiadau ac eithrio'r Bil, neu o ganlyniad i drefniadau cytundebol a wnaed gan y person cyfrifol.

³ Mewn perthynas â Chymru, y rhain yw: gwarchodwyr plant; gofal dydd; ysgolion; unedau cyfeirio disgyblion; manau eraill y darperir addysg eithriadol o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996; sefydliadau addysg bellach; a

14. Y cyfiawnhad a roddir gan Lywodraeth y DU dros ddefnyddio'r dull hwn yw y bydd y darparwyr addysg a gofal plant a restrir eisoes yn ddarostyngedig i ddyletswyddau diogelu, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt amddiffyn plant ar-lein. Mae'r esemptiad yn ceisio osgoi sefyllfa lle y bydd y darparwyr hynny yn cael eu harolygu gan OFCOM a'r cyrff goruchwyllo addysg a gofal plant perthnasol (sef Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yng Nghymru).

15. Mae cymal 175(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ddiwygio'r rhestr o ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil.

16. Dim ond pan fo meini prawf penodol yn cael eu bodloni y gellir gwneud rheoliadau o dan gymal 175(5), sy'n cynnwys:

- diwygio'r disgrifiad o ddarparwr addysg neu ofal plant oherwydd bod deddfwriaeth wedi'i diwygio neu ei diddymu, sy'n effeithio ar y ffordd y mae disgrifiad wedi cael ei lunio yn Rhan 2 o Atodlen 1 i'r Bil;
- ychwanegu disgrifiad newydd o ddarparwr addysg neu ofal plant oherwydd bod deddfiadau, canllawiau statudol neu ofynion sy'n gymwys i'r disgrifiad hwnnw o addysg a gofal plant yn golygu y byddai'n briodol i'r disgrifiad gael ei ychwanegu at Ran 2 o Atodlen 1 i'r Bil; neu
- dileu disgrifiad o ddarparwr addysg neu ofal plant oherwydd bod y risg o niwed i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth addysg neu ofal plant hwnnw yn cyfiawnhau dileu'r disgrifiad hwnnw o'r rhestr.

17. Mae Llywodraeth y DU yn datgan yr ystyrir bod y pŵer i wneud rheoliadau yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i'r ddeddfwriaeth gael ei diweddarau i fynd i'r afael â newidiadau yn y system addysg.

18. Mae Cymal 179 o'r Bil yn nodi'r weithdrefn seneddol ar gyfer rheoliadau a wneir o dan y Bil. Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan gymal 175(5) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft⁴.

chyfleusterau addysg neu hyfforddiant ôl-16 a ariennir gan Weinidogion Cymru (ond nid y rheini a ddarperir gan sefydliadau yn y sector addysg uwch neu ddarparwyr sy'n darparu addysg neu hyfforddiant i'w cyflogeion eu hunain).

⁴ Mae'r weithdrefn gadarnhaol yn darparu na all Gweinidogion Cymru arfer eu pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth oni fydd y Senedd wedi gwneud penderfyniad i gymeradwyo drafft o'r is-ddeddfwriaeth. Felly, mae'r is-ddeddfwriaeth yn cael ei gosod gerbron y Senedd ar ffurf drafft, ac ni fydd yn dod i rym oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r

19. Mae'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn cefnogi'r darpariaethau arfaethedig. Mae paragraff 22 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi:

"Wrth fabwysiadu'r dull hwn, bydd y darpariaethau'n gwneud newidiadau ymarferol a phwysig i reoleiddio diogelwch ar-lein ledled y DU gan sicrhau hefyd nad yw'r rheoleiddio arfaethedig yn y Bil yn arwain at reoleiddio ychwanegol, diangen nac anghymesur i ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru."

5. Y rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil

20. Mae Llywodraeth Cymru'n nodi'r rhesymau dros wneud darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil ym mharagraffau 18 i 20 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol. Yn y paragraffau hynny, nodir fel a ganlyn:

"Mae'r Bil Diogelwch Ar-lein yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau rhynggrwyd mewn perthynas â diogelwch ar-lein ac yn rhoi pwerau i OFCOM ac yn gosod dyletswyddau arno. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ymwneud â "gwasanaethau rhynggrwyd", mater a gadwyd yn ôl".

Bydd y darpariaethau a fewnosodir gan Gymal 175(5) o'r Bil yn sicrhau bod darparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru yn cael eu hesemptio o'r Bil er mwyn osgoi ac felly peidio â bod yn ddarostyngedig i reoleiddio ychwanegol gan OFCOM ar ben yr hyn a osodir ar hyn o bryd gan ofynion diogelu statudol a/neu gontractiol. Ar hyn o bryd, mae gofynion diogelu sy'n ymwneud â diogelwch ar-lein ac amddiffyn plant rhag niwed eisoes yn rhan o waith arolygu a rheoleiddio o dan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae diogelwch a llesiant pobl yn gyfrifoldeb a rennir ac yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac ar Lywodraeth y DU. Rydym yn cydnabod mai Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf effeithiol a chymesur i reoleiddio darparwyr rhynggrwyd yn gyson a fydd yn diogelu pobl Cymru."

drafft. Mae'r weithdrefn hon yn cael ei chadw yn aml ar gyfer is-ddeddfwriaeth fwy arwyddocaol (fel is-ddeddfwriaeth sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol).

6. Ystyriaeth y Pwyllgor

- 21.** Trafododd y Pwyllgor Cyllid y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ei gyfarfod ar 8 Mehefin 2022.
- 22.** Nododd yr Aelodau sylwadau'r Dirprwy Weinidog Newid yn yr Hinsawdd y bydd y rheoliad arfaethedig yn y Bil yn ' gwneud newidiadau ymarferol a phwysig i reoleiddio diogelwch ar-lein ledled y DU' gan sicrhau nad oes 'rheoleiddio ychwanegol, diangen nac anghymesur i ddarparwyr addysg a gofal plant yng Nghymru'.
- 23.** Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft, gan ei bod yn rhoi rheolaeth i'r Senedd pan fydd Gweinidogion Cymru yn gosod rheoliadau.
- 24.** Nid oes gan aelodau'r Pwyllgor unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol a'r cais am gydsyniad i'r darpariaethau perthnasol ym Mil Diogelwch Ar-lein y DU.